Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

# Dod i adnabod




## Daf James



### Bywgraffiad

Un o ddramodwyr, sgriptwyr, cyfansoddwyr a pherfformwyr amlycaf Cymru yw Daf James. Yn ogystal â phortreadu'r cymeriad cerddorol 'Sue', fe yw awdur y dramâu arloesol *Llwyth a Tylwyth*. Bydd ei gyfres ddrama *Lost Boys and Fairies* yn cael ei darlledu ar BBC1 yn 2024. Mae'n byw yng Nghaerdydd gyda'i ŵr a'u tri plentyn. Dyma ei nofel gyntaf.

### Crynodeb:

Mae Jac yn byw ym mhentref bach Bethlehem gyda'i dad-cu, ond mae'r Nadolig wedi ei ganslo ar yr aelwyd eleni. Felly pan ffrwydra angel allan o galendr adfent ei fam, a chynnig dymuniad iddo, mae'n edrych fel petai'r rhod yn troi. Ei ddymuniad? Cael chwarae rhan Mair yn sioe Nadolig yr ysgol.

Ond pan mae'r Nadolig yn dechrau diflannu o'i gwmpas, a theulu'r Heroniaid yn chwalu ei gynlluniau, mae Jac yn gwneud darganfyddiad a fydd yn newid ei fyd – a'r Nadoig – am byth.

**Pa ddylanwadau ac atgofion oedd yn sefyll allan yn dy blentyndod?**
O ran llyfrau, u'n o'm hoff atgofion o'dd aros gyda Mam-gu a Dad-cu yn y Bala a chael mynd i siop Awen Meirion i brynu llyfr newydd sbon i'w ddarllen. O'n i'n dwlu ar lyfrau Irma Chilton a Gwenno Hywyn.

Dwi'n cofio clywed cân 'Y Cwm' am y tro cyntaf gan swog yn canu'r piano yng ngwersyll Llangrannog a mynd yn *obsessed*. Bron mor *obsessed* ag o'n i gyda'r ffilm *Y Dyn' Nath Ddwyn y Dolig* gan Hywel Gwynfryn a Caryl Parry Jones. Ro'n i'n arfer gwylio hi ar y VHS bob bore cyn mynd i'r ysgol gan nodi lawr geiriau caneuon fel bo fi'n gallu mynd a'u canu nhw yn ystod amser egwyl ar y delyn!

Cafodd pasiantau Ysgol Iolo Morganwg ddylanwad mawr arna i hefyd. Dyna le ddysges i am hanes cyfieithu'r Beibl ac am Iolo Morganwg. Roedd Siân Ellis, partner fy athrawes Mrs Sanders, bob tro yn sgwennu'r sgriptiau. Roedd hi'n grefftus yn creu geiriau i'r caneuon ar alawon anhygoel gan Y Beatles a llu o felodïau cyfoes gwych eraill fel *Caravans* gan Barbara Dickson neu *I Know Him So Well* o'r sioe gerdd *Chess*. Yn ogystal â dysgu hanes felly, ro'n i hefyd yn dysgu sut i ddweud stori ar ffurf theatrig, yn ogystal â phŵer cerddoriaeth a melodi.

**Pa awgrymiadau sydd gyda ti i annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er pleser?**
Dwi'n dwlu ar y dyfyniad yma gan gymeriad Roald Dahl, Matilda, yn y ffilm sydd wedi ei haddasu o'r nofel: 'What I really like is reading. It's like a holiday in your head'. Dyna o'dd darllen i fi yn blentyn. Mae mor bwysig bo ni'n darparu testunau sy'n adlewyrchu profiadau a hunaniaethau gwahanol i'n plant. Ro'n i'n aml yn teimlo'n unig yn blentyn ond ro'n i'n gallu dianc rhwng cloriau llyfrau i ddysgu am brofiadau cymeriadau a gweld nad oeddwn i ar ben fy hunan yn y byd, go iawn.

Ond nawr dwi'n dad, dwi hefyd yn gwybod nad yw'n brêns ni gyd yn gweithio yn yr un ffordd. Nid pob plentyn sy'n gallu darllen yn rhwydd; ond ma' sawl ffordd o ddysgu am bŵer iaith, grym straeon ac empathi. Felly os y'ch chi'n stryglan â nofelau, fedrwch chi hefyd ddysgu drwy wrando ar straeon, hala negeseuon testun, chwarae gemau cyfrifiadur, a darllen isdeitlau *Netflix*!

**Rho ddyfyniad sydd wrth wraidd dy fywyd di...**
Dechrau wrth dy draed.

Mae'n help ym mhob argyfwng- pan mae'r byd wedi mynd yn drech na fi, pan dwi'n dechrau prosiect newydd, neu pan ma ishe golchi'r llestri ac mae'r tŷ mewn *mess*!